DEDDF SAFLEOEDD CARAFANNAU A RHEOLI DATBLYGU 1960
ADRAN 5

SAFONAU MODEL 1983 - SAFLEOEDD TEITHIOL

I. Y mae Adran 5(6) o'r Ddeddf yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, o bryd i'w gilydd, bennu Safonau Model mewn perthynas â gweddlun, a darpariaeth cyfleusterau, a gwasanaethau ac offer ar gyfer safleoedd carafannau neu fathau penodol o safle carafannau; ac,. wrth benderfynu pa amodau (os o gwbl) i'w cysylltu â thrwydded safle rhaid i'r awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw safonau a bennir ganddo. O dan Adran 5(1)(c) mae'r amodau yn rheoleiddio lleoliad y carafanau ar gyfer deiliad dynol, a gosod neu dynnu, ar unrhyw amser pan fo carafanau wedi eu lleoli, adeiladwaith a cherbydau o unrhyw ddisgrifiad a phebyll.

II. Y mae Adran 7(1) yn darparu y caiff llys ynadon newid neu ddiddymu amod mewn apêl yn erbyn unrhyw amod ar drwydded safle, os yn fodlon (gan gymryd i ystyriaeth ymysg pethau eraill unrhyw safonau a nodir gan y Gweinidog dan Adran 5(6)) fod amod yn afresymol o feichus.

III. Y mae Adran 24, sy'n awdurdodi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd carafanau, yn darparu, yn isadran (2) fod rhaid i'r awdurdod lleol, wrth ymarfer ei bwerau dan yr adran, gymryd i ystyriaeth unrhyw safonau a allasai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi eu pennu dan Adran 5(6) o'r Ddeddf.

IV. Rhoddodd Adran 8(2) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ddarpariaethau i Adran 5, 8 a 24 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoliadau Datblygu 1960 yn nodi'r angen i awdurdodau lleol gysylltu ag awdurdodau tân wrth ymarfer eu pwerau o dan y Ddeddf honno mewn perthynas i roddi trwyddedau safle i safleoedd carafanau a darpariaeth safleoedd carafanau awdurdodau lleol. Y mae angen nawr i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod tân i ba raddau bo'r safonau model mewn perthynas i ragofalon tân yn berthnasol i'r safle. Os cred yr awdurdod tân fod y safonau yn amherthnasol i'r safle, yna bydd angen i'r awdurdod lleol ymgynghori â hwy ynglyn â pha ragofalon tân a ddylid eu cynnwys yn y drwydded safle. Dylai'r awdurdod lleol hefyd gysylltu â'r awdurdod tân cyn newid unrhyw amod ar drwydded safle sy'n ymwneud â rhagofal tân neu cyn darparu safle carafán.

V. Yn sgil ei bwerau dan Adran 5(6) o'r Ddeddf mae'r Gweinidog drwy hyn yn pennu Safonau Model ar gyfer carafanau teithiol/pebyll. Er y cynrychiolant y safonau a ddisgwylir yn arferol, fel mater o arferiad da, ni ddymuna'r Ysgrifennydd Gwladol iddynt fod yn berthnasol i bob safle gan ddiystyru arwyddocâd economaidd ac eraill ar gyfer gweithredwyr safle, defnyddwyr safle a mwynderau cyhoeddus. Dylent gael eu harfer gydag ystyriaeth i amgylchiadau pob achos unigol, gan gynnwys nodwedd ffisegol y safle, unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau a all fod ar gael yn barod o fewn cyrraedd, ac amodau lleol eraill gan gynnwys y math o wyliau sydd gan y safle i'w gynnig.

Ble cyfyngir y defnydd i garafannau gyda'u toiledau a chyfleusterau ymolchi eu hunain, mae'n bosibl na fydd angen toiledau cymunol a chyfleusterau ymolchi a gellir derbyn safonau is na'r hyn a benodir mewn ambell leoliad i osgoi adeiladwaith neu osodiadau â all beri ymyrraeth weledol.

VI. Mae'r Safonau Model hyn ar gyfer safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan garafanau teithiol/pebyll, a olyga carafanau/pebyll na'u gosodir ar y safle drwy gydol y flwyddyn neu'r tymor gwyliau. Lle defnyddir safle ar gyfer carafanau teithiol a charafannau statig, dylai'r awdurdod lleol benderfynu, un ai i gyfeirio at y Safonau Model Diwygiedig 1977 neu'r safonau canlynol, yn ôl y defnydd helaethaf o'r safle. Er enghraifft pan fo carafanau statig yn rhagoriaeth, bydd ceisiadau o Safonau Model Diwygiedig 1977 yn berthnasol.
Dylid cymryd i ystyriaeth, fodd bynnag, y gall newidiadau arwyddocaol yn natur y defnydd olygu newid yn amodau'r drwydded.

1.0 DWYSEDD

1.1 Ni ddylai'r dwysedd fod yn rhagor na 75 uned (carafanau neu garafán modur) yr hectar (30 uned yr acer) gan gyfrif hynny ar sail y lle y gellir ei ddefnyddio yn hytrach na'r safle i gyd (hy gan hepgor creigiau, llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cyhoeddus ayb.) os, lle caniateir gwersyllu, dylid lleihau'r nifer o leoedd ar gyfer gosod pabell a feddiannir gan brif bebyll ar gyfer deiliad dynol.

1.2 Ble cyfyngir y nifer o unedau ar y safle gydag amod, gall fod yn berthnasol i bennu'r uchafswm am gyfnodau arbennig fel i ganiatáu i fyny i 10% uned yn ychwanegol ym mrig y cyfnod gwyliau fel y cytunir rhwng yr awdurdod trwyddedu safle a'r trwyddedai heb ddarpariaeth cyfleusterau ychwanegol, os:

(i) cydymffurfir â pharagraff 1; a

(ii) cydymffurfir â'r safonau sy'n berthnasol i'r lle rhwng unedau, fel y manylir ym mharagraffau 3-5 isod.

2.0 LLE RHWNG UNEDAU

2.1 Ni ddylai'r pellter rhwng unedau teuluol unigol fod yn llai na 6 medr a ddim ar unrhyw gyfrif yn llai na 3 medr.

2.2 Caniateir parcio cerbydau o fewn y 6 medr rhwng unedau ond er mwyn rhwystro tân rhag lledu dylid cadw 3 medr o'r 6 medr yn glir ar unrhyw adeg.

2.3 Dylai cerbydau argyfwng gael mynediad priodol, o fewn i 90 medr o unrhyw uned ar y safle, ar bob amser.

3.0 CYFLENWAD DWR YFED A GWAREDIAD DWR GWASTRAFF

3.1 Dylai fod cyflenwad dwr yfed digonol ar y safle

3.2 Ni ddylai unrhyw uned fod ymhellach na 90 medr o dap dŵr.

3.3 Wrth bob tap dylid cael pwll mwydo neu cwli.

3.4 Dylid darparu mannau gwaredu dwr gwastraff fel na bod unrhyw uned ymhellach na 90 medr i ffwrdd.

3.5 Dylid ymgynghori efo'r Awdurdod Dwr perthnasol ynglyn â thwr sydd wedi'i lygru.

4.0 TOILEDAU A THOILEDAU CEMEGOL

4.1 Dylid darparu 1 toiled ac 1 cafn ar gyfer dynion a 2 doiled ar gyfer merched i bob 30 uned a dylai eu lleoliad fod yn foddhaol gan yr awdurdod trwyddedu.

4.2 Gellir lleihau'r raddfa ar gyfer safleoedd i dros 120 o unedau (gweler hefyd baragraff 9 isod).

4.3 Mae'n bosibl nad oes rhaid cyfiawnhau toiledau i safleoedd gyda llai na 10 o unedau, ond ar safleoedd gyda rhwng 10 a 30 o unedau dylid cael o leiaf 1 toiled ac 1 cafn i ddynion a 2 doiled ar gyfer merched.

4.4 Lle mae darpariaeth o doiledau yn anymarferol neu le nad oes cyfiawnhad iddynt dylid cyfyngu mynediad i unedau gyda'u toiledau eu hunain neu dylid darparu toiledau cemegol.

5.0 ARLLWYSFAN BWRPASOL AR GYFER TOILEDAU CEMEGOL

5.1 Hyd yn oed os darperir toiledau, dylid darparu arllwysfan bwrpasol ar gyfer gwagio toiledau cemegol gyda chyflenwad digonol o ddwr i lanhau'r cynwysyddion.

5.2 Dylid ystyried y modd o waredu yn wyneb pob amgylchiad a fydd yn foddhaol i'r awdurdod lleol a'r awdurdod dwr.

5.3 Lle bo'n berthnasol, dylai'r cyflenwad dwr gael ei farcio'n glir fel dwr na ellir ei yfed.

6.0 MANNAU YMOLCHI

6.1 Dylid darparu o leiaf 2 basn ymolchi ar gyfer dynion a 2 basn ymolchi ar gyfer merched i bob 30 uned.

6.2 Dylent fod yn gyfagos i'r toiledau.

7.0 DWR POETH: CAWODYDD

7.1 Ni ddylai cawodydd fod yn orfodol ar safleoedd gyda llai na 70 uned.

7.2 Os oes angen cawodydd, dylid eu darparu ar y raddfa o 1 gawod i bob 25 uned a dylai fod dwr poeth ar gael.

8.0 POBL ANABL

8.1 Dylid talu sylw i anghenion yr anabl wrth ddarparu mannau dwr, toiledau a mannau ymolchi.

9.0 GOSODIADAU TRYDAN

9.1 Ac eithrio gweithiau a chylchedau'r Bwrdd Trydan sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau dan Adran 60 o Ddeddf Trydan 1947, dylid gosod unrhyw osodiadau trydan yn unol â gofynion Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (SPT) ar gyfer gosodiadau mewn grym ar y pryd, a lle bo'n briodol, i safon y gellir ei derbyn i bwrpas y Rheoliadau Cyflenwad Trydan 1988 (Diwygiwyd 1990) neu unrhyw ddiwygiadau pellach.

9.2 Dylid cynnal unrhyw osodiad er mwyn arbed perygl a dylid ei archwilio yn rheolaidd gan berson cymwys o dan Reoliadau Gwifrau'r SPT.

10.0 GWAREDU YSBWRIEL

10.1 Dylid gwneud darpariaeth ddigonol er mwyn cadw, casglu a gwaredu ysbwriel.

10.2 (Disgwylir i weithredwyr safle fod yn gyfrifol trwy wneud trefniadau gyda'r awdurdod lleol).

11.0 RHAGOFALON TAN

11.1 Ni ddylai unrhyw uned fod ymhellach na 90 medr i ffwrdd o lecyn cyfarpar tân.

11.2 Wrth bob llecyn cyfarpar tân dylid darparu diffoddyddion dwr (2 x 10 litr) sydd yn cydymffurfio â Safon Prydain 5423:1980,

11.3 Ynghyd â dull i rybuddio rhag tân ee.

a. larwm llaw,
b. cloch neu
c. seiren law.

11.4 Dylid diogelu'n briodol pob offer sy'n agored i ddifrod gan rew.

11.5 Lle bynnag fydd tebygolrwydd o dân yn lledu oherwydd tyfiant, dylid darparu curyddion priodol, fel y defnyddiwyd gan y Comisiwn Goedwigaeth, wrth bob llecyn cyfarpar tân.

11.6 Dylai pob llecyn cyfarpar tân fod yn hawdd ei gyrraedd ac wedi'i farcio'n glir.

11.7 Dylid sicrhau fod cyfarpar ymladd tân yn barod i'w ddefnyddio ac ar gael i'w archwilio gan neu dros yr awdurdod trwyddedu.

11.8 Ymhob llecyn cyfarpar tân dylid arddangos rhybudd pa fodd i weithredu pe ceid tân ynghyd â lleoliad y ffôn agosaf.

Dylai'r rhybudd gynnwys y manylion isod:
‘**Os canfyddwch dân’**

a. Canwch y larwm
b. Sicrhewch fod pawb yn ymadael â'r uned sydd ar dân
c. Galwch ar y Frigâd Dân (mae'r ffôn agosaf yn .....)
d. Ddiffoddwch y tân gan ddefnyddio'r offer tân a ddarparwyd, os yw'n ddiogel i wneud hynny.

12.0 NWY HYLIF PETROLIWM

12.1 Dylai'r trefniadau ar gyfer cadw Nwy Hylif Petroliwm (NHP) ar y safle gydymffurfio â'r rholiadau cenedlaethol.

13.0 RHYBUDDION SAFLE

13.1 Dylid arddangos arwydd addas mewn lle amlwg wrth fynedfa'r safle yn nodi enw'r safle.

13.2 Dylid arddangos rhybuddion ar y safle yn dangos pa fodd i weithredu pe byddai argyfwng a hefyd dangos lle y gellir

a. cysylltu â'r heddlu,
b. y frigâd dân,
c. ambiwlans a
d. meddygon lleol, ynghyd â
e. lleoliad y blwch ffôn cyhoeddus agosaf.

13.3 Os yw'n gyfleus dylid darparu ffôn ar y safle a dylid arddangos cyfeiriad y safle wrth ymyl y ffôn.

13.4 Ar safleoedd sy'n dueddol i gael llifogydd, dylid arddangos rhybuddion sy'n rhoi cyfarwyddyd am y system rhybudd rhag llifogydd.

13.5 Lle ceir llinellau trydan uwch-ddaear dylid arddangos rhybuddion ger mynedfa'r safle ac ar y polion trydan.

13.6 Lle bo'n briodol dylid rhybuddio ynglyn â pheryglon o gyffwrdd rhwng y llinellau â mastiau iotâu neu ddingis.

13.7 Dylid arddangos copi o'r drwydded a'i hamodau mewn lle amlwg ar y safle.